

Adroddiad Blynyddol Cynghorwyr CBSP 2024-25

Y Cynghorydd John C. Spanswick

Ward: Canol Gorllewin
Bracla

Plaid: Llafur Cymru

Mae'r adroddiad hwn yn nodi fy mhrif weithgareddau yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis **Ebrill 2025**. Mae'n cael ei ddarparu er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid at unrhyw ddiben arall. Y farn a fynegir yn yr adroddiad hwn yw barn y Cynghorydd ac nid ydyw o reidrwydd yn adlewyrchu barn Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr..

Y Rôl a Chyfrifoldebau

Cefais fy ethol i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr ym 1999 ac ar hyn o bryd rwy'n cynrychioli ward Gorllewin Bracla. Yn ogystal, rwy'n aelod o Gyngor Cymuned Bracla yn cynrychioli ward Gorllewin Bracla.

Ym mis Mai 2024 deuthum yn Arweinydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr sydd wedi rhoi cipolwg hollol newydd i mi ar yr ystod eang o waith a wnaed ar draws y sefydliad. Mae hon yn rôl yr wyf yn falch o'i gwneud ac y byddaf bob amser yn ceisio fy ngorau i sicrhau fy mod yn ymateb i anghenion trigolion a'r gymuned leol bob amser.

Rwyf wedi cefnogi trigolion ar amrywiaeth o faterion ac rwy'n parhau i godi ymholiadau etholwyr gyda'r Cyngor a sefydliadau partner eraill. Mae hyn yn ychwanegol at fynd i'r afael â nifer o faterion eraill ar draws y gymuned yr wyf yn ceisio'u datrys yn barhaus.

Gweler rhagor o wybodaeth am fy rolau, cyfrifoldebau a gweithgareddau drwy ddilyn y ddolen hon:

[Manylion cynghorydd - Y Cynghorydd John Spanswick - Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr](#)

Gweithgareddau Etholaethol

Nid wyf wedi trefnu unrhyw gymorthfeydd ward dros y flwyddyn ddiwethaf gan fy mod yn tueddu i weld bod yn well gan drigolion gysylltu yn uniongyrchol dros y ffôn, e-bost ac yn fwyfwy dros y cyfryngau cymdeithasol, ond rwy'n barod i ystyried cynnal cymorthfeydd yn y dyfodol pe bai'r galw'n codi.

Rwyf wedi gwneud fy hun ar gael ar draws Bracla gan weithio gyda fy nghyd-gynghorwyr ward sy'n cynrychioli'r ardal ac rwyf bob amser ar gael naill ai drwy e-bost neu dros y ffôn.

Rwy'n parhau i wneud atgyfeiriadau ar ran trigolion ac yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn (h.y. Mai 2024 i Ebrill 2025) rwyf wedi gwneud cyfanswm o 169 o atgyfeiriadau ar ystod o bynciau.

Mentrau a Gweithgareddau Arbennig

Rwy'n parhau i helpu gyda gwaith Cyngor Cymuned Bracla, gan wirfoddoli yn rheolaidd ar gyfer digwyddiadau fel Diwrnod Hwyl Bracla, Bracla yn ei Blodau, arddangosfa tân gwyllt ac unrhyw ddigwyddiadau eraill drwy gydol y flwyddyn. Mae'r holl ddigwyddiadau hyn wedi cael eu hariannu gan Gyngor Cymuned Bracla ac rwyf wedi bod yn rhan weithredol yn Niwrnod Hwyl Bracla ers i'r un cyntaf gael ei gynnal ym 1998.

Mae'n bleser gennyf adrodd bod gan Bracla bellach gyfleusterau chwarae newydd ac wedi'u hadnewyddu ar draws y ward ynghyd â chynlluniau ar gyfer parc sglefrio newydd a fydd yn cael ei gwblhau erbyn diwedd 2025.

Yn olaf, ar ôl sawl blwyddyn o aros a llawer o waith gyda swyddogion yn BCBC, mae'n wych gweld y llwybr hygyrch wedi'i adeiladu ym Mryn Bracla sy'n gyfleuster newydd i'w groesawu i helpu pobl i gael mynediad a mwynhau'r man gwyrdd gwych hwn yn ein cymuned.

Yn ystod y flwyddyn gwariwyd dros £200,000 ar ailwynebu'r ffordd a'r gylchfan ger tafarn The Haywain a hefyd o gylchfan y Triongl tuag at Ysgol Iau Bracla. Buddsoddiad i'w groesawu ond mae mwy i'w wneud bob amser.

Gweithgareddau/Materion Eraill

Rwyf wedi gweithio gyda Persimmon Homes i geisio nodi rhannau o dir ym Mracla maen nhw'n berchen arnynt. Mae hyn wedi bod yn eithaf araf ac er bod nifer o feysydd nad ydynt yn cael eu cynnal yn dda, byddaf yn dyfalbarhau a gobeithio cyflawni rhai canlyniadau maes o law.

Rwyf wedi mynychu sawl cyfarfod gyda Chymdeithas Tai Wales & West i helpu i ddatblygu perthnasoedd cymunedol a gweithio mewn partneriaeth â nhw ar fentrau a gweithgareddau.

Y Cyngorydd: John C. Spanswick**Dyddiad: 7 Gorffennaf 2025**